# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

## Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mawrth 10fed, 2026

## Cofnodion

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Karena Owens, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Michael Roberts.
   Elfyn Lewis (Clerc)
2. **Ymddiheuriadau:**
   Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Edward Naish, Cyng. Aled Griffith
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:**
   **Cyfarfod Llawn Chwefror 10fed, 2026**
   Derbynwyd yn gywir. Cyng. Jeremy Davies yn cynnig. Cyng. Karena Owens yn eilio.
4. **Adroddiad y Cadeirydd:**
   Croesawyd y cynghorwyr i gyfarfod gynta o'r Gwanwyn o'r Cyngor Tre. Roedd hi wedi bod yn Aeaf hir gyda glaw di-ddiwedd ond roedd y tywydd yn gwella a'r tymor twristiaeth ar ddechrau.
   Mi gyfarfu'r Cadeirydd a'r Clerc gyda David Charles Williams o Tim Tacluso Cyngor Gwynedd i drafod materion ynglyn a Stryd Fawr, Porthmadog.
   Roedd sawl cais cynllunio ar y gweill ym Mhorthmadog.
   Roedd cyfarfod am ei gynnal yn ystod wythnos gyntaf Mis Ebrill i drafod Meddygfa newydd Porthmadog a roedd y Cadeirydd a'r Clerc am fynychu ac adrodd yn ol i'r Cynghorwyr.
   Trafodwyd y posiblrwydd i'r Clerc gael ffon symudol er mwyn ei gwneud yn haws i gysylltu gyda pobl.
5. **Adroddiad y Clerc:**
   **<u>Cae Pawb.</u>**
   Mae'r tenantiaid i gyd wedi talu eu rhent.
   Mae un tenant wedi penderfynu ei fod am roi'r plot i fyny ar ol talu'r rent.
   Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r sawl sydd ar dop y rhestr aros i gynnig y plot iddo.
   Bydd angan trefnu bod £3 o rent bob tenant yn mynd i Gymdeithas Randiroedd Cae Pawb i dalu am gostau cynnal a chadw Cae Pawb.
   Does dim diweddariad oddi wrth yr heddlu am y difrod a wnaethpwyd i blotiau yn Cae Pawb yn ddiweddar.
   Mae'r Clerc wedi gofyn i bwyllgor Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i holi faint y buasai yn ei gostio i gael giat uwch newydd i'r brif fynedfa i wella diogelwch y safle.

   **<u>Grant Cronfa Gwynedd Ni.</u>**
   Mae'r gwaith papur gyda'r grant bellach wedi ei gwblhau a'r ad-daliadau wedi cyrraedd cyfrif banc Y Cyngor Tre. Mae'r chwe mainc wedi eu gosod. Gorfu symud un o tu allan i Thetford House a'i ail-osod y tu allan i adeilad Breese Gwyndaf drwy orchymyn Cyngor Gwynedd. Nid oedd cost ychwanegol i'r Cyngor Tre.

   **<u>Apel am gynghorwyr newydd.</u>**
   Mae apel wedi bod ar safleoedd Cyngor Tre Porthmadog, Porthmadog Residents a Cymuned Porthmadog Community ar facebook. Daeth un ymateb (i'w drafod o dan Gohebiaeth).

**Bwrdd Gwybodaeth Cyngor Tref Porthmadog**
Roedd Cyngor Gwynedd wedi ail-osod bwrdd gwybodaeth Cyngor Tref Porthmadog ar y palmant y tu allan i'r Ganolfan.

**Tim Tacluso.**
Roedd hi'n dda gweld bod Tim Tacluso Cyngor Gwynedd wedi bod yn brysur yn glanhau rhai o strydoedd cefn Porthmadog yn ddiweddar.

**Croesfan Rheilffordd Cambria**.
Roedd y groesfan bellach wedi cael ei atgyweirio.

6. **Datgan diddordeb.**
Dim datganiad.
7. **Ceisiadau Cynllunio.**
Dim wedi eu cyflwyno.

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**
Dim i'w drafod.

**9. MATERION I'W DWYN GERBRON:**
Dim i'w drafod.

**10. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Ebrill 14 2026 = Ebrill 4ydd 2026, ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

Dr. Melfyn Edwards. Cynnig bod y datblygiadau diweddaraf am Meddygfa newydd i Borthmadog yn cael ei roi ar raglen cyfarfodydd Y Cyngor Tre am y dyfodol agos.

**11. Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb.**

**a. Swyddfa Bost** Customercare@postoffice.co.uk
**Ymholiad am y Swyddfa Bost newydd ym Mhorthmadog.**
Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddfa Bost eto er mwyn cael ateb i'r ddau ymholiad.

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Rheilffordd Ucheldir Cymru** | **Holi am Cae Pawb.**<br>Y Clerc i gysylltu gyda'r tenant i ofyn iddo gadarnhau ei fod wedi gadael y plot ar dir y rheilffordd ac wedi trwshio'r ffens. |
| 2 | **Cyngor Tref Pwllheli** | **Bysiau nos.**<br>Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Tref Pwllheli a Chyngor Gwynedd. |
| 3 | **Dewi Wyn Owen CG** | **Ad-daliad am gynnal Llwybrau Cyhoeddus yn Ardal Dwyfor ar ran Cyngor Gwynedd.**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 4 | **David Charles Williams** | **Mainc Thetford House**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 5 | **Rhian Wyn Williams CG** | **Llochesi bws Parc Porthmadog**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 6 | **Meryl Roberts Cyngor Penrhyndeudraeth** | **Offer Cae Chwarae Bodawen**<br>Derbyn y wybodaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Criccieth Cleaning Ltd** | **Cytundeb glanhau Llochesi Bws**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 8 | **Emyr Roberts** | **Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg**<br>Y Clerc i gysylltu gyda Emyr Roberts i fynegi eu cefnogaeth a hefyd i Arolwg Ordnans i ddatgan eu gwrthwynebiad i'r ffaith bod enwau Cymraeg yn diflannu oddiar fapiau swyddogol. |
| 9 | **Martin Thomas** | **Fferm Gelert**<br>Derbyn y wybodaeth. Cysylltu gyda Martin Thomas i'w hysbysu ei bod yn bosib iddo gysylltu a delio gyda'r swyddogion perthnasol ei hun fel unigolyn yn ogystal a dod a sylw'r Cyngor Tre i'r mater. |
| 10 | **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 3 - Galw am Safleoedd Posib.**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 11 | **Cyngor Gwynedd** | **Holiadur Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.**<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 12 | **Cyngor Gwynedd** | **Grant Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026.**<br>Derbyn y wybodaeth.<br>Y Clerc i estyn gwahoddiad i swyddogion Cyngor Gwynedd i gyfarfod Mis Ebrill o Gyngor tref Porthmadog. |
| 13 | **Ian Hugheston Roberts CNC** | **Pont ger Cae Chwarae Bodawen**<br>Derbyn y wybodaeth.<br>Nid yw y bont dan sylw ar dir Cyngor Tre Port. |
| 14 | **Sarah Williams** | **Llythyr Cais Cyfethol Cynghorydd.**<br>Cyfetholwyd Sarah Williams.<br>Cyng. Dr. Melfyn Edwards yn cynnig. Cyng. Glenda Murray yn eilio. Derbynwyd yn unfrydol. |
| 15 | **Steffan Smith** | **Diweddariad Peilot ailgartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor.**<br>Derbyn y wybodaeth. |

**<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc | £42.59 |
| Cae Pawb | Arian Parod Rent | £700 |
| Cyngor Gwynedd | Cyfraniad Cyngh | £3751.44 |
| Cyngor Gwynedd | Cyfraniad Cyngh | £640 |
| Cae Pawb | Arian Parod Rent | £130 |
| Cae Pawb | Sieciau Rent | £225 |
| Cae Pawb | Sieciau Rent | £50 |

**Taliadau:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Ionawr 2026 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Ionawr 2026 | £1408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Ionawr 2026 | £352.14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Y Ganolfan | Rhodd ariannol | £5,000 |
| 5 | Yr Wylan | Rhodd ariannol | £1,500 |
| 6 | Ganolfan Morfa Bychan | Rhodd ariannol | £1,000 |
| 7 | Cyfeillion Ysgol y Gorlan | Rhodd ariannol | £200 |
| 8 | Neuadd Goffa Tremadog | Rhodd ariannol | £1,000 |
| 9 | Taliad Cerdyn | Stampiau | £17-40 |
| 10 | Clwb Pel-droed Porthmadog | Rhodd ariannol | £250 |
| 11 | Merched y Wawr Cangen Porthmadog | Rhodd ariannol | £200 |
| 12 | HICYP | Rhodd ariannol | £500 |
| 13 | Cyfeillion Borth-y-Gest | Rhodd ariannol | £500 |
| 14 | Clwb Chwaraeon Madog | Rhodd ariannol | £5000 |
| 15 | Cor Eifionydd | Rhodd ariannol | £250 |
| 16 | Criw Cymraeg Ysgol Eifion Wyn | Rhodd ariannol | £200 |
| 17 | Alan G. Jones | Taliad gosod raciau beiciau | £300 |
| 18 | Cyngor Gwynedd | Gosod a gwaredu coed Nadolig | £2358 |
| 19 | Cyngor Gwynedd | Gwaith tiroedd ardaloedd agored a llwybrau Cyngor Tref Porthmadog | £8551.66 |
| 20 | xerox | Llogi llungopiwr ac yswiriant | £164.40 |

**Awdurdodwyd y taliadau uchod. Cyng. Karena Owens yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio.**

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.**

Elfyn Lewis (Clerc)
Mawrth 17eg, 2026

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*